| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **21/11/2016** |
| **PWNC:** | **GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL** |
| **AELOD PORTFFOLIO (S):** | **Y CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **ALWYN JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BARBARA WILLIAMS**<br><br>**01248 752738**<br>**barbarawilliams@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.0 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y datganiad sefyllfa hwn mewn perthynas â'r gwasanaeth Anabledd Dysgu.

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## 2.0 RHESYMAU.

2.1 Mae'r adroddiad hwn, y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Mawrth 2016, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu ac yn benodol yn y Rhaglen Drawsnewid o fewn y gwasanaeth.

2.2 Mae'r rhaglen drawsnewid yn uchelgeisiol ac yn drawsbynciol ac ar hyn o bryd mae'n cynorthwyo'r prosiectau canlynol:

- Allanoli'r cynlluniau byw â chymorth (mewnol)
- Gwahodd tendrau ar gyfer cynlluniau byw â chymorth (allanol)
- Adolygu ac ailfodelu'r holl wasanaethau dydd / cyfleon gwaith – sef y rhai mewnol a'r rhai a gomisiynir yn allanol
- Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol (ar gyfer pob grŵp cleient)
- Datblygu Modelau Darparu Amgen (ar gyfer pob grŵp cleient)

2.3 Hyd yma, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol o fewn cwmpas y prosiectau a nodir uchod:

- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, staff, teuluoedd a darparwyr.

- Cwblhau crynodeb byr o anghenion defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer cynlluniau byw â chymorth (mewnol)
- Trafodaethau am fanylebau gwasanaeth a dogfennau tendro
- Ymgysylltu â'r Tîm Cefnogi Pobl ynghylch gostyngiad yn y cyllid
- Comisiynu adolygiadau allanol o wasanaethau byw â chymorth a gwasanaethau dydd / cyfleon gwaith.
- Modelu ariannol
- Ymgysylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys sesiwn ymgysylltu ā rhanddeiliaid a hwyluswyd mewn partneriaeth â Lleisiau Lleol.

2.4 Mae'r cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer pob un o'r prosiectau yn fanwl a chynhwysfawr. Bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- <u>Cynlluniau Byw â Chymorth (mewnol):</u> adolygu casgliadau'r adroddiad allanol. Cynnal dadansoddiad manwl o'r model cymorth ym mhob tŷ. Cwblhau manyleb gwasanaeth drafft a dogfennau tendro a chynnal ymarferiad comisiynu ar y cyd mewn cydweithrediad â'r Tîm Cefnogi Pobl.
- <u>Cynlluniau Byw â Chymorth (allanol):</u> cynnal asesiad manwl o effaith y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r targedau arbedion corfforaethol. Cwblhau manyleb gwasanaeth drafft a dogfennau tendro a chynnal ymarferiad comisiynu ar y cyd mewn cydweithrediad â'r Tîm Cefnogi Pobl. Cytuno model ar gyfer cyd-gynhyrchu gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- <u>Gwasanaethau dydd / cyfleoedd gwaith allanol:</u> datbtblygu manyleb gyda golwg ar ddatblygu cytundeb fframwaith sy'n seiliedig ar y model Cymorth Gweithredol ac sy'n canolbwyntio ar gynnydd.
- <u>Gwasanaethau dydd Mewnol:</u> cynnal gwerthusiad manwl o'r opsiynau i gefnogi penderfyniad i ailfodelu neu ddigomisiynu.
- <u>Model Darparu Amgen;</u> mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain yn gorfforaethol.
- <u>Taliadau Uniongyrchol:</u> datblygu cynllun hyfforddiant ar gyfer staff mewnol, gomisiynu gwasanaeth cymorth newydd, ailwampio'r strategaeth wybodaeth, sefydlu grŵp ffocws i ddefnyddwyr gwasanaeth, lansio gwasanaeth newydd.

**Rhaglen Oedolion Iau - Cynllun Gwaith**

| Rhif | Prosiect | Nodau | Gyrwyr | Dyddiad cwblhau gwreiddiol | Dyddiad cwblhau diwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau Byw â Chymorth (mewnol) | Allanoli'r ddarpariaeth fewnol | Arbedion ariannol / Toriadau i'r cyllid Cefnogi Pobl | 12/16 | 12/17 |
| 2 | Cynlluniau Byw â Chymorth (allanol) | Aildendro'r holl ddarpariaeth allanol | Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog / Toriadau i'r cyllid Cefnogi Pobl/ Arbedion ariannol | 03/17 | 12/17 |
| 3 | Gwasanaethau Dydd mewnol | Adolygu'r ddarpariaeth i'r dyfodol | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | 12/17 |
| 4 | Gwasanaethau Dydd Allanol | Ailfodelu gwasanaethau | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | Dim newid |
| 5 | Taliadau uniongyrchol | Cynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol, lansio'r gwasanaeth newydd | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | Dim newid |
| 6 | Modelau Darparu Amgen | Ystyried dichonoldeb Canolfan Byron fel Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 06/16<br>Wedi cau | Dim newid |
| 7 | Trafnidiaeth | Ystyried opsiynau trafnidiaeth gwahanol | Arbedion ariannol | 06/17 | Dim newid |

Awdur: Barbara Williams
Teitl y Swydd: Rheolwr Gwasanaeth - Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
Dyddiad: 26/10/2016